**Pumed Cyfarfod Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
**19 Ionawr 2011**
**Tŷ Ladywell, Y Drenewydd**

**Yn bresennol:** Diana Reynolds (Cadeirydd), Llywodraeth Cynulliad Cymru; Caryn Le Roux, Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeëdig; Aethne Cooke, Grŵp Ecosystem Forol; Blaise Bullimore, Grŵp Ecosystem Forol; Barbara Jones, Grŵp Ecosystem yr Ucheldir; Jan Sherry, Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir; Peter Frost, Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol a Thir Llwyd; Tracey Lovering, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru; Tristan Hatton-Ellis, Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw; Chris Tucker, Grŵp Ecosystem Coetiroedd; Peter Jones, Grŵp Ecosystem Gwlyptiroedd. **Ymddiheuriadau:** Helen Buckingham, Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir; Peter Rhind, Grŵp Ecosystem Arfordirol; Stephen Bladwell, Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau.

**1. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM 'CYMRU FYW' (gan Diana Reynolds, y Cadeirydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru)**

Cafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 179 o ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch Cymru Fyw, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio i ddarparu crynodeb o'r ymatebion a datganiad ar y camau nesaf. Gallwch eu gweld yn awr ar www.wales.gov.uk/livingwales. Cafwyd cefnogaeth eang i'r cysyniad, a darparwyd cyngor manwl gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy. Bydd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn rhan o'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a bydd pob elfen arall o Bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyd-fynd ag ef hefyd. Roedd y sawl a ddarparodd ymatebion yn cynnwys cyrff cadwraeth, cyrff coedwigaeth, busnesau, ymddiriedolaethau iechyd ac undebau amaethwyr, a chafwyd rhywfaint o ymateb gan ffermwyr unigol a rhai yn y sector pysgota. Bydd y grwpiau na chafwyd ymateb ganddynt neu a ddarparodd nifer fach o ymatebion yn cael eu nodi, a thros y 2 flynedd nesaf bydd y ffrydiau gwaith yn cyfathrebu â hwy.

Yn gyffredinol, roedd rhai o'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy o'r farn bod Cymru Fyw yn amwys oni bai ei fod yn cael ei ddarllen gyda'r naratif. Gallai ymddangos fel pe bai'n canolbwyntio'n unig ar wasanaethau ecosystemau, ond mewn gwirionedd mae a wnelo â gwydnwch ac iechyd ecosystemau. Mae angen i'r neges hon gael ei chyfleu yn glir ar lefel uwch, ac mae angen iddi fod yn gysylltiedig â chefnogaeth ystyrlon.

Mae Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystem yn cefnogi'r dull gweithredu, ond mae angen sicrwydd arnynt bod pobl yn deall y bydd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn broses sy'n esblygu, ac nad yw'n gofyn i ni roi'r gorau i'r hyn yr ydym yn ei wneud yn awr, sy'n hollbwysig, ond ei bod yn hytrach yn gofyn i ni symud ymlaen gyda dealltwriaeth i ddefnyddio'r dull ecosystem. Mae angen i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ddefnyddio enghreifftiau cadarnhaol o weithio yn y dull ecosystem i ddatblygu newid cadarnhaol, e.e. prosiect Pete Jones.

**CAM GWEITHREDU Dylai pawb anfon eu syniadau ynghylch astudiaethau achos at Fiona Evans (f.evans@ccw.gov.uk)**

Cydnabyddir bod gan amaethyddiaeth a physgodfeydd rôl hollbwysig i'w chwarae o ran lleihau effeithiau negyddol a chreu effeithiau cadarnhaol ar gyfer ecosystemau. Cytunodd y Cadeiryddion fod ffermwyr, at ei gilydd, yn barod i dderbyn cefnogaeth ariannol sy'n rhoi cymorth iddynt reoli'r tir.

**2. ADNODDAU**

**Grantiau**:

- Gwerth £140,000 o grantiau gan Amgylchedd Cymru. Cytunwyd y byddai £70,000 ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r gobaith yw y byddai'r Cyngor Cefn Gwlad unwaith yn rhagor yn rhoi arian sy'n cyfateb iddo. Bydd panel Amgylchedd Cymru yn cytuno ar sail y cyntaf i'r felin, yn seiliedig ar waith blaenoriaethu a wneir gan Grwpiau Ecosystem os oes angen. Mae'r meini prawf ar gyfer grant yn awgrymu ar hyn o bryd bod angen manteision cymunedol a mynediad gan brosiectau, ond mae hynny'n anghywir. Bydd y geiriad hwnnw'n cael ei ddisodli gan eiriad cliriach ynghylch cynnwys y gymuned a gwirfoddoli (sy'n ofynnol ac a gaiff ei annog).

- Darparodd Julia Korn gyflwyniad i'r Grant Bioamrywiaeth arfaethedig gan y Cyngor Cefn Gwlad, sydd wedi'i anelu at dirfeddianwyr/ffermwyr ac ati lle nad oes unrhyw ddull ariannu arall ar gael ar gyfer gwaith rheoli, e.e. tirfeddianwyr sydd â llai na 3 hectar o dir. Bydd y Grant yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion yn hytrach na sefydliadau. Y gobaith yw y bydd £100,000 yn dod ar gael yn ystod y flwyddyn gyntaf.

**Pobl**:

Cyrff cyflawni Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r swyddogion wedi cael caniatâd i ystyried ymhellach y posibilrwydd o sefydlu corff newydd (mor gynnar â 2013 o bosibl), a diben craidd y corff fydd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Bydd Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystem yn cyflawni gwaith yn rhan o'u Disgrifiadau Swydd. Bydd y gwaith hwn yn elfen allweddol o ymrwymiad y llywodraeth i bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd ffrwd waith y Bartneriaeth yn edrych ar sut y mae asiantaethau'r llywodraeth yn gweithio gyda'r trydydd sector.

**3. Cylch gorchwyl**

Cytunir ar y drafft (gweler *Cylch Gorchwyl Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru*), ond gyda'r ddealltwriaeth y bydd yn esblygu wrth i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol esblygu. Cafwyd peth dryswch eisoes gan nad oedd pobl wedi darllen mor bell â thudalen 25 dogfen gefndirol Cymru Fyw, sy'n ddealladwy. Cytunwyd bod y capasiti sydd gennym ar hyn o bryd yn annigonol i allu cyflawni, ac mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd arloesol o bontio'r bwlch. Mae angen eglurder ynghylch gwaith y Cyngor Cefn Gwlad/Asiantaeth yr Amgylchedd a gwaith Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystem. Awgrymodd Diana y gallai'r ymarfer dysgu yn seiliedig ar gamau gweithredu ganolbwyntio ar gapasiti.

Cynigiwyd gwneud newidiadau sylweddol i'r cylch gorchwyl, a chytunwyd bod hynny'n hanfodol i sicrhau ymgysylltu ar lefel uchel. Codwyd y problemau sy'n ymwneud â chymorth cyson i bob grŵp, a'r angen i sicrhau ein bod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni. Cadarnhaodd Julia y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Cyngor Cefn Gwlad yn fuan ynghylch y cylch gorchwyl.

Cytunwyd ar y diwygiadau i'r geiriad.

**4. Rhestr cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru**
Mae Jan wedi dechrau trefnu sesiynau ar faterion penodol, e.e. Asesiadau o Effaith Amgylcheddol.

**CAM GWEITHREDU Dylai pawb ddewis eu hoff swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ystod cyfarfod nesaf eu Grwpiau Ecosystem, a dylent adrodd yn ôl ynghylch y rhain wrth Tracey a Diana.**

**5. Protocol Cyfarfod Cymru Fyw**

Cytunwyd arno gyda mân newidiadau.

**Unrhyw fater arall**
Gall fod yn anodd cael gafael ar gyfleusterau fideogynadledda/saingynadledda ar gyfer pob cyfarfod, a chytunwyd y dylid defnyddio mwy o Pow Wow, sef y gwasanaeth telegynadledda sy'n rhad ac am ddim.

Ni chytunwyd ar y diffiniad o frithwaith trefol hyd yn hyn. Mae angen cynnal arolwg o hyd a lled y cynefin, ond mae'r ffaith nad oes diffiniad ar gael yn atal hynny.

Atgoffodd Tracey bawb fod angen i'r holl adroddiadau sydd heb eu llunio eto ynghylch cynnydd Grwpiau Ecosystem yn 2010 gael eu cyflwyno erbyn 24 Ionawr (dydd Llun) i'w cynnwys ym Mhapur Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru SG13).

Mae Niall Moore wedi cytuno i gadeirio'r Grŵp Rhywogaethau Ymledol Estron nes i'r sawl a fydd yn cymryd lle Bill ddechrau yn ei swydd.